O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 337 (Cy. 54)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 a Thraffordd yr M4 (Cylchfan Grove Park i Gyfnewidfa Caerllion, Casnewydd) (Gwaharddiad Dros Dro ar Gerbydau) 2012

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *9 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *20 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 a Thraffordd yr M4 (Cylchfan Grove Park i Gyfnewidfa Caerllion, Casnewydd) (Gwaharddiad Dros Dro ar Gerbydau) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of the motorway")* yw hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r

dwyrain sy’n ymuno â thraffordd yr M4 yng Nghyffordd 25a yn Ninas a Sir Casnewydd;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” *(“the length of the trunk road”)* yw'r darn o Gefnffordd yr A4042 yn Ninas a Sir Casnewydd sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â Chylchfan Grove Park hyd at bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Cyfnewidfa Caerllion;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru nac achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd, ar wahân i gerbyd esempt, deithio ar y darnau o'r gefnffordd a'r drafford.

**4.** Nid yw darpariaethau erthygl 3 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fo cymhwysiad y gwaharddiad y cyfeirir ato yn yr erthygl honno'n cael ei ddangos gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y’i dangosir.

**5.** Bydd hyd y Gorchymyn hwn yn ddim mwy na 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 9 Chwefror 2012

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.